Gwnaethpwyd yr offeryn hwn ar 11 Tachwedd 2015; ni chafodd ei osod tan 30 Tachwedd 2015.

Craffu: Rhinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

06 Ionawr 2016



2015 Rhif 1905 (Cy. 277)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu
Annomestig (Cymru) (Diwygio)
2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) yn lle'r un bresennol.

2015 Rhif 1905 (Cy. 277)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

**Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu
Annomestig (Cymru) (Diwygio)
2015**

Gwnaed 11 Tachwedd 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 30 Tachwedd 2015

Yn dod i rym 31 Rhagfyr 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(2).

-
- (1) 1988 c. 41. Diwygiwyd adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41), a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, gan adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a Rhan I o Atodlen 3 iddi.
- (2) O.S. 1992/3238 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305) a 2014/3193 (Cy. 323).

Diwygio Rheoliadau 1992

2.—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o
Weinidogion Cymru
11 Tachwedd 2015

YR ATODLEN Rheoliad 2

“SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

<i>Billing authority area</i>	<i>Prescribed figure</i>
Blaenau Gwent	55,722
Bridgend	112,178
Caerphilly	141,099
Cardiff	281,207
Carmarthenshire	147,829
Ceredigion	62,875
Conwy	94,564
Denbighshire	75,337
Flintshire	121,644
Gwynedd	98,583
Isle of Anglesey	56,533
Merthyr Tydfil	46,587
Monmouthshire	74,234
Neath Port Talbot	112,590
Newport	113,566
Pembrokeshire	99,000
Powys	107,516
Rhondda Cynon Taf	186,911
Swansea	194,267
Torfaen	72,248
Vale of Glamorgan	100,662
Wrexham	107,275”

Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2015

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Finance Policy Division, and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2015.

Leighton Andrews AM
Minister for Public Services
11 November 2015

Description

1. The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2015 (“the 2015 Regulations”) amend the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992 (SI 1992/3238) (“the 1992 Regulations”).
2. The 1992 Regulations prescribe the rules for calculating non-domestic rates contributions paid by Local Authorities to the non-domestic rates pool. Amendments are made annually to Schedule 4 (Adult Population Figures) to the 1992 Regulations to ensure that the basis for Authorities’ contributions to the non-domestic rates pool remains up-to-date. Amendments to the 1992 Regulations are now required to enable local authorities to calculate their non-domestic rates contributions for 2016-2017.

Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

3. There are no matters of special interest to the Committee.

Powers

4. The relevant legal powers for this instrument to be made are conferred upon the Welsh Ministers by the Local Government Finance Act 1988 (section 60 and paragraphs 4 and 6 of Schedule 8).
5. The powers under paragraphs 4 and 6 of Schedule 8 to the 1988 Act were originally conferred on the Secretary of State and were later transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. The powers were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.
6. The Local Government Finance Act 2012 amended the 1988 Act which now expressly provides that the various powers in Schedule 8 to the 1988 Act (including those to make regulations) are vested in the Welsh Ministers.
7. The 2015 Regulations amend the 1992 Regulations and are subject to the negative resolution procedure.
8. The Local Government Finance Act 1988 (paragraph 4(6) of Schedule 8) requires that for these Regulations to be effective for a particular financial year, they must come into force before 1 January in the preceding financial year (i.e. no later than 31 December 2015 for the 2016-17 financial year.)

Purpose and intended effect of the legislation

9. Local Authorities (county and county borough councils) are required to pay Non-Domestic Rates contributions to the Welsh Ministers in respect of the rates they collect from non-domestic properties in their areas. Local Authorities in Wales do not retain the non-domestic rates they collect. All rates are paid into the Non-Domestic Rating Pool from which they are redistributed to Local Authorities

and Police and Crime Commissioners on the basis of adult population figures. Local Authorities make payments into the pool on the basis of estimates completed before the start of each financial year. Local Authorities submit audited returns after the end of the financial year and receive payments from the Welsh Ministers or make additional payments to the pool as appropriate.

10. The 2015 Regulations update the adult population figures for each Authority. These are used to set a threshold for Local Authorities to recalculate, where necessary, their provisional contributions to the pool.
11. Amendments to the 1992 Regulations are now required to enable Local Authorities to calculate their Non-Domestic Rating contributions for 2016-17. The 2015 Regulations amend the 1992 Regulations by substituting a new Schedule 4 (Adult Population Figures).
12. If these changes are not made, the estimates made by Local Authorities for their contributions to the rating pool will be inaccurate as they will be based on the previous year's population figures which are out-of-date.

Consultation

13. These amendments are only of interest to Local Authorities and have no effect on ratepayers. They are technical in nature. The population figures are updated annually and have no policy implications. In light of this, no consultation exercise has been undertaken.

Regulatory Impact Assessment

14. These are routine amendments which are made annually to update the rules Local Authorities (county and county borough councils) must apply in calculating their contributions to the Non-Domestic Rating Pool. They are technical in nature, of interest only to Local Authorities and have no effect on ratepayers. As such, a regulatory impact assessment has not been prepared.

CLA637 - Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

Gweithdrefn

Cadarnhaol

Cefndir

Mae'r Gorchymyn yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n nodi (i) y sefydliadau (cyfeirir atynt fel personau yn y Mesur) sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a (ii) pa gategoriâu o safonau sy'n gymwysadwy i bob sefydliad.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau megis hepgor enwau sefydliadau nad ydynt bellach yn bodoli, cynnwys sefydliadau newydd, a diwygio enwau sefydliadau eraill i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r Mesur gael ei wneud.

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Mae'r pŵer i ddiwygio'r rhestr o sefydliadau a nodir yn Atodlen 6 i'r Mesur wedi'i gynnwys yn adran 35 o'r Mesur. Er mwyn iddynt gael eu hychwanegu i Atodlen 6, rhaid i'r sefydliadau ddod o fewn categori a bennir yn Atodlen 5 i'r Mesur. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus, rheoleiddwyr a phersonau sy'n derbyn mwy na £400,000 o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol. Nid yw'r Gorchymyn na'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio pa gategoriâu yn Atodlen 5 sy'n gymwys i bob un o'r sefydliadau y mae'r Gorchymyn yn bwriadu ei ychwanegu i Atodlen 6. Bydd absenoldeb yr wybodaeth yma yn ei gwneud yn anoddach i Aelodau'r Cynulliad a'r sefydliadau dan sylw fodloni eu hunain fod y pŵer wedi'i ddefnyddio'n briodol.

2. Esbonia'r Memorandwm Esboniadol mai cam cyntaf yw cynnwys yn Atodlen 6 i'r Mesur yn y broses o osod gofyniad i gydymffurfio a safonau o dan y Mesur gan y Comisiynydd Iaith. Er hynny, mae'n



drawiadol na fu unrhyw ymgynghori gyda'r cyrff dan sylw mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Cyfeirir at y cyfraniad a wnaeth pob un ond dau ohonynt i ymchwiliad cynharach gan y Comisiynydd, ond ni roddir unrhyw wybodaeth ynghylch y sylwadau a roddodd y sefydliadau i'r Comisiynydd.

[Rheol Sefydlog 21.3(ii) bod y Gorchymyn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]

Ymateb y Llywodraeth

Mae ymateb y Llywodraeth i'w weld yn Atodiad 1

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Rhagfyr 2015



Atodiad 1 - Ymateb y Llywodraeth

Mae swyddogion wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn eu Hadroddiad Rhinweddau ar Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

Categoriâu o Berson

Er tryloywder, ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu hychwanegu at Atodlen 6, mae'r tabl yn nodi pa categori yn Atodlen 5 y maen nhw'n cwmpo iddo ym marn Gweinidogion Cymru. Os yw'n bosibl bod y sefydliad yn cwmpo o fewn mwy nag un categori, un categori yn unig sydd wedi ei nodi.

Sefydliad	Categori yn Atodlen 5.
Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol	Categori (6): Personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd.
Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil	Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus.
Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain	Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus.
Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol	Categori (6): Personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd.
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru	Categori (2): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad.
Y Bwrdd Ystadegau	Categori (2): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad.
Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Coleg Ceredigion	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.



Coleg Sir Gâr	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus.
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol	Categori (6): Personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd.
Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Cymwysterau Cymru	Categori (6): Personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd.
Glandŵr Cymru	Categori (4): Personau y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi eu rhoi iddynt neu wedi eu gosod arnynt drwy ddeddfiad.
Gofal Cymru	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Hafal	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn



	ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Leonard Cheshire Disability	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru	Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus.
Royal Voluntary Service	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
Y Sefydliad Ffilm Prydeinig	Categori (3): Personau wedi eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol— (b) i gasglu neu ddiogelu gwybodaeth gofnodedig, neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, neu ddarparu mynediad at yr wybodaeth honno neu at y gwrthrychau a'r pethau hynny, (c) i gefnogi, gwella, neu hybu treftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, neu ddarparu mynediad atynt,
Swyddfa Archwilio Cymru	Categori (1): Awdurdodau cyhoeddus.
Wallich – Clifford Community	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.



WEA YMCA CC Cymru	Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.
-------------------	---

Ymgynghori

Ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol ymgynghori ar y Gorchymyn hwn gan nad yw'n gosod dyletswyddau ar y sefydliadau, ac mae'r broses o wneud safonau yn cynnig amryw o gyfleoedd i sefydliad godi unrhyw bryderon sydd ganddo.

Mae'r sefydliadau yn y Gorchymyn sydd wedi cymryd rhan yn Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o, ac yn rhan o'r broses o wneud safonau. Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno dadansoddiad o'u hymatebion ynghyd â'i chasgliadau mewn cyfres o adroddiadau i Weinidogion Cymru.

Mae Adran 66(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i adroddiadau'r ymchwiliad safonau a baratowyd gan y Comisiynydd wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau i bennu safonau a'u gwneud yn benodol gymwys a sut y dylent arfer y pwerau hynny. Bydd unrhyw bryderon mae sefydliad wedi eu codi yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru yn ystod y broses hon.

At hynny, cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ef yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon ei fod eisoes wedi ymgynghori â'r sefydliad neu fod y sefydliad wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad safonau). Mae hysbysiad cydymffurfio yn nodi pa safonau y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw (ym mha amgylchiadau ac ardaloedd). Yn ogystal mae'r hysbysiad cydymffurfio yn nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r sefydliad ddechrau cydymffurfio.

Mae yna hefyd weithdrefn glir i unrhyw sefydliad allu herio'r gofyniadau i gydymffurfio â safon benodol ar y sail nad yw'n rhesymol ac yn gymesur gofyn iddo wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd. Os yw'r sefydliad am apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

Y cyrff na chawsant eu cynnwys yn ail neu drydydd Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd yw'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, sydd wedi cymryd arnynt swyddogaethau Cyngor Ffilm y DU, a Glandŵr Cymru sy'n sefydliad olynol i Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain. Enwir y ddau sefydliad yn Atodlen 6 i'r Mesur ac mae cynnwys y Sefydliad Ffilm Prydeinig a Glandŵr Cymru yn y Gorchymyn yn diweddar Atodlen 6. Nid oedd Cymwysterau Cymru wedi ei sefydlu hyd nes i ddau Ymgynghoriad y Comisiynydd ddod i ben. Mae ymrwymiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oedd yn gysylltiedig â Bil Cymwysterau Cymru i'r corff gael ei gynnwys o fewn y grŵp o gyrff a enwir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel rhai sy'n gorfod cydymffurfio â dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg o dan y system a sefydlir gan y Mesur.

Ni ellir gorfodi'r sefydliadau hyn i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg nes bod yr amodau a nodir yn adran 25 o'r Mesur wedi'u diwallu a bod ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio (yn unol ag adran 47) wedi ei gyflawni.



Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu tynnu'r Memorandwm Esboniadol yn ôl ac ail-osod fersiwn wedi'i ddiweddarau er mwyn cynnwys yr wybodaeth uchod.



Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2016 Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg (“safonau”).

Mae adran 25 o'r Mesur yn darparu bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i'r person. Nid yw'r amodau eraill yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 33 o'r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw'r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng nghlofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person (a) yn cael ei bennu yng nghlofn 1 o'r tabl yn Atodlen 6 (“y tabl yn Atodlen 6”), neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y glofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 36 yn darparu bod safon yn gymwysadwy i berson os yw'r safon yn perthyn i ddsbarth o safonau a bennir yng nghlofn 2 o gofnod y person yn y tabl yn Atodlen 6. Mae pob un o'r canlynol yn ddsbarth o safonau—

- (i) safonau cyflenwi gwasanaethau,

- (ii) safonau llunio polisi,
- (iii) safonau gweithredu,
- (iv) safonau hybu, a
- (v) safonau cadw cofnodion.

Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, neu gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

- (i) safonau cyflenwi gwasanaethau;
- (ii) safonau llunio polisi;
- (iii) safonau gweithredu; a
- (iv) safonau cadw cofnodion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy—

- (a) mewnosod personau newydd yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob person;
- (b) tynnu personau oddi ar Atodlen 6 pan fo'n briodol, er enghraifft os yw sefydliad wedi ei ddiddymu;
- (c) diweddarau Atodlen 6 i adlewyrchu newidiadau mewn enwau ers i'r Mesur gael ei wneud.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6)
2016**

Gwnaed

Yn dod i rym

15 Chwefror 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 35, 38 a 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn, cymhwysu a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Diwygio Atodlen 6

2. Mae Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi ei diwygio yn unol â'r Atodlen.

(1) 2011 mccc 1.

Prif Weinidog Cymru
Dyddiad

YR ATODLEN Erthygl 2

DIWYGIADAU I ATODLEN 6

1. Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i'r Mesur, yn y manau priodol mewnosoder—

“Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol (<i>“The Human Fertilisation and Embryology Authority”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (<i>“The Civil Nuclear Police Authority”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain (<i>“British Transport Police Authority”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (<i>“The Human Tissue Authority”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (<i>“The Board of Community Health Councils in Wales”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Y Bwrdd Ystadegau (<i>“The Statistics Board”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig (<i>“Career Choices Dewis Gyrfa Limited”</i>)”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Coleg Ceredigion”	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”

“Coleg Sir Gâr	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (“ <i>Police and Crime Commissioners</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (“ <i>The General Pharmaceutical Council</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth (“ <i>The National Association of Citizens Advice Bureaux</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Cymwysterau Cymru (“ <i>Qualifications Wales</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Glandŵr Cymru (“ <i>The Canal & River Trust</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Gofal Cymru	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Hafal	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Leonard Cheshire Disability	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (“ <i>Her Majesty’s Chief Inspector of Education and</i>	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”

<i>Training in Wales</i>)	
“Royal Voluntary Service	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Y Sefydliad Ffilm Prydeinig (<i>“The British Film Institute”</i>)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Swyddfa Archwilio Cymru (<i>“The Wales Audit Office”</i>)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Wallich-Clifford Community	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“WEA YMCA CC Cymru	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”

2. Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 (public bodies etc: standards) i'r Mesur, yn y manau priodol mewnosoder—

“The Board of Community Health Councils in Wales (<i>“Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The British Film Institute (<i>“Y Sefydliad Ffilm Prydeinig”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“British Transport Police Authority (<i>“Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The Canal & River Trust (<i>“Glandŵr Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards

	Operational standards Record keeping standards”
“Career Choices Dewis Gyrfa Limited (<i>“Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Civil Nuclear Police Authority (<i>“Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Coleg Ceredigion	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Coleg Sir Gâr	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The Pharmaceutical General Council (<i>“Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Gofal Cymru	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Hafal	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Her Majesty’s Chief Inspector of Education and Training in Wales (<i>“Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”

“The Human Fertilisation and Embryology Authority (<i>“Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The Human Tissue Authority (<i>“Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Leonard Cheshire Disability	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The National Association of Citizens Advice Bureaux (<i>“Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Police and Crime Commissioners (<i>“Comisiynwyr Heddlu a Throsedd”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Qualifications Wales (<i>“Cymwysterau Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Royal Voluntary Service	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The Statistics Board (<i>“Y Bwrdd Ystadegau”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“The Wales Audit Office (<i>“Swyddfa Archwilio Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards

			Operational standards Record keeping standards”
“Wallich-Clifford Community			Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“WEA Cymru	YMCA	CC	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”

3. Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- (a) “Awdurdodau'r Heddlu (*“Police Authorities”*)”;
- (b) “Ymddiriedolaethau Prawf (*“Probation Trusts”*)”;
- (c) “Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona (*“The National Policing Improvement Agency”*)”;
- (d) “Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (*“The University of Wales Institute, Cardiff”*)”;
- (e) “Yr Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol (*“National Clinical Assessment Service”*)”;
- (f) “Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd (*“The Olympic Delivery Authority”*)”;
- (g) “Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (*“The British Waterways Board”*)”;
- (h) “Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (*“The Sustainable Development Commission”*)”;
- (i) “Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (*“The Legal Services Commission”*)”;
- (j) “Comisiwn y Loteri Genedlaethol (*“The National Lottery Commission”*)”;
- (k) “Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol (*“The Social Fund Commissioner”*)”;
- (l) “Y Cronfeydd Byw'n Annibynnol (*“The Independent Living Funds”*)”;
- (m) “Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (*“The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain”*)”;
- (n) “Cyngor Ffilm y DU (*“UK Film Council”*)”;
- (o) “Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (*“Universities and Colleges Admission Service”*)”;
- (p) “Llais Defnyddwyr (*“Consumer Focus”*)”;

- (q) “Prifysgol Cymru, Casnewydd (“The University of Wales, Newport”);
- (r) “Prifysgol Glandŵr (*“Glandŵr University”*);
a
- (s) “Prifysgol Morgannwg (*“University of Glamorgan”*)”.

4. Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 i’r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- (a) “Police Authorities (*“Awdurdodau’r Heddlu”*)”;
- (b) “Probation Trusts (*“Ymddiriedolaethau Prawf”*)”;
- (c) “The British Waterways Board (*“Bwrdd Dyffyrdd Prydain”*)”;
- (d) “Consumer Focus (*“Llais Defnyddwyr”*)”;
- (e) “Glandŵr University (*“Prifysgol Glandŵr”*);
- (f) “The Independent Living Funds (*“Y Cronfeydd Byw’n Annibynol”*)”;
- (g) “The Legal Services Commission (*“Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol”*)”;
- (h) “National Clinical Assessment Service (*“Yr Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol”*)”;
- (i) “The National Lottery Commission (*“Comisiwn y Loteri Genedlaethol”*)”;
- (j) “The National Policing Improvement Agency (*“Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona”*)”;
- (k) “The Olympic Delivery Authority (*“Awdurdod Gweithredu’r Gemau Olympaidd”*)”;
- (l) “The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain (*“Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr”*)”;
- (m) “The Social Fund Commissioner (*“Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol”*)”;
- (n) “The Sustainable Development Commission (*“Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy”*)”;
- (o) “UK Film Council (*“Cyngor Ffilm y DU”*)”;
- (p) “Universities and Colleges Admission Service (*“Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a’r Colegau”*)”;
- (q) “University of Glamorgan (*“Prifysgol Morgannwg”*)”;
- (r) The University of Wales Institute, Cardiff (*“Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd”*)”; a
- (s) “The University of Wales, Newport (*“Prifysgol Cymru, Casnewydd”*)”.

5. Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 i’r Mesur—

- (a) yn lle “Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (*“The General Teaching Council for Wales”*)” rhodder “Cyngor y Gweithlu Addysg (*“Education Workforce Council”*)”;
- (b) yn lle “Y Cyngor Proffesiynau Iechyd (*“The Health Professions Council”*)” rhodder “Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (*“The Health and Care Professions Council”*)”;
- (c) yn lle “Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (*“The Council for Healthcare Regulatory Excellence”*)” rhodder “Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (*“The Professional Standards Authority for Health and Social Care”*)”;
- (d) yn lle “Ffocws ar Deithwyr (*“Passenger Focus”*)” rhodder “Transport Focus”; ac
- (e) yn lle “Panel Asesu Rhenti i Gymru (*“The Rent Assessment Panel for Wales”*)” rhodder “Y pwyllgorau asesu rhenti i Gymru (*“The rent assessment committees for Wales”*)”.

6. Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur—

- (a) yn lle “The Council for Healthcare Regulatory Excellence (*“Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd”*)” rhodder “The Professional Standards Authority for Health and Social Care (*“Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol”*)”;
- (b) yn lle “The General Teaching Council for Wales (*“Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru”*)” rhodder “Education Workforce Council (*“Cyngor y Gweithlu Addysg”*)”;
- (c) yn lle “The Health Professions Council (*“Y Cyngor Proffesiynau Iechyd”*)” rhodder “The Health and Care Professions Council (*“Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal”*)”;
- (d) yn lle “Passenger Focus (*“Ffocws ar Deithwyr”*)” rhodder “Transport Focus”; ac
- (e) yn lle “The Rent Assessment Panel for Wales (*“Panel Asesu Rhenti i Gymru”*)” rhodder “The rent assessment committees for Wales (*“Y pwyllgorau asesu rhenti i Gymru”*)”.

7. Yn nhestun Cymraeg paragraff 2 o Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y diffiniad o “Ffocws ar Deithwyr” (*“Passenger Focus”*) a mewnosoder yn y man priodol “ystyr “Transport Focus” yw'r Cyngor Teithwyr a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005;”.

8. Yn nhestun Saesneg paragraff 2 o Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y diffiniad o “Passenger Focus” (*“Ffocws ar Deithwyr”*) a mewnosoder yn y man

pridol ““Transport Focus” means the Passengers’
Council established under the Railways Act 2005;”.

MEMORANDWM ESBONIADOL I

Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o'r effaith y disgwylir i Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016 ei chael.

Carwyn Jones AC
Y Gwir Anrhydeddus
Prif Weinidog Cymru

14 Rhagfyr 2015

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016 ('y Gorchymyn') yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n nodi (i) y sefydliadau (cyfeiri'r atynt fel personau yn y Mesur) sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a (ii) pa gategorïau o safonau sy'n gymwysadwy i bob sefydliad.
- 1.2 Mae'r Gorchymyn yn delio â newidiadau megis hepgor enwau sefydliadau nad ydynt bellach yn bodoli, cynnwys sefydliadau newydd, a diwygio enwau sefydliadau eraill i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r Mesur gael ei wneud.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- 2.1 Caiff Gorchymynion i ddiwygio Atodlen 6 eu gwneud o bryd i'w gilydd. Byddant yn cynnwys newidiadau i enw neu statws sefydliadau, yn dileu sefydliadau nad ydynt bellach yn bodoli ac yn mewnosod sefydliadau newydd, i sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud safonau sy'n benodol gymwys iddynt.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Adran 35 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 1 y tabl yn cynnwys (i) sefydliad sy'n dod o fewn un neu ragor o gategorïau Atodlen 5 neu (ii) categori o sefydliadau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o gategorïau Atodlen 5.
- 3.2 Mae Adran 38 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio tabl Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod sefydliad (neu o gofnod 'categori o sefydliadau') yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol (i) safonau cyflenwi gwasanaethau, (ii) safonau llunio polisi, (iii) safonau gweithredu a (iv) safonau cadw cofnodion.
- 3.3 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r mesur drwy;
- (a) mewnosod sefydliadau newydd a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob sefydliad;
 - (b) tynnu sefydliadau oddi yno lle bo hynny'n briodol, er enghraifft os yw sefydliad wedi ei ddiddymu;
 - (c) diwygio enwau sefydliadau sydd wedi newid ers i'r Mesur gael ei wneud.

3.4 Mae'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y weithdrefn gadarnhaol).

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth, a'r effaith y disgwylir iddi ei chael

Cefndir

4.1 Cadarnhaodd y Mesur statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Mae pennu safonau ac awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i'w gwneud yn ofynnol i bobl gydymffurfio â'r safonau hynny yn gam allweddol yn y gwaith o roi effaith i'r Mesur.

Y mater

4.2 Mae Atodlen 6 i'r Mesur yn nodi'r categorïau o sefydliadau a'r sefydliadau unigol sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae angen diweddarau'r Atodlen bellach; nid yw rhai o'r sefydliadau a enwir yn yr Atodlen yn bodoli bellach, mae rhai wedi newid eu henw ac mae eraill wedi uno i greu sefydliadau newydd. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad, yn dilyn ymchwiliad safonau, y dylai rhai sefydliadau nad oeddent yn flaenorol wedi'u cynnwys yn Atodlen 6 i'r Mesur fod yn agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

4.3 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried casgliadau'r Comisiynydd, ynghyd ag ystyried a yw'r sefydliadau hyn yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 a phriodoldeb cynnwys y sefydliadau yn Atodlen 6. Mae'r Gorchymyn yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Pwrpas

4.4 Bydd y Gorchymyn hwn yn diweddarau'r rhestr o sefydliadau yn Atodlen 6 i adlewyrchu'r newidiadau.

- Mae paragraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn mewnosod enwau sefydliadau i Atodlen 6 i'r Mesur.

Mae'r Gweinidogion wedi ystyried pob sefydliad a gynhwysir yn y Gorchymyn i sicrhau eu bod yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, ac maent yn fodlon eu bod .

- Mae paragraffau 3 a 4 o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn hepgor cofnodion pan nad yw'r sefydliadau hynny bellach yn bodoli, pan fyddant yn cwmpo i un o gategorïau Atodlen 6 yn barod, neu pan fo

Gweinidogion Cymru o'r farn bod sefydliad yn dod o fewn Atodlen 7 a 8 i'r Mesur.

- Mae paragraffau 5 a 6 o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn newid y cofnodion lle bo'r sefydliadau y sonnir amdanynt wedi newid eu henw.

Effaith

4.5 Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru (drwy Reoliadau ar wahân) i wneud safonau yn benodol gymwys i'r sefydliadau neu'r categorïau o sefydliadau a gynhwysir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn ac i'r sefydliadau y mae eu henwau wedi newid (gweler paragraffau 5 a 6 o'r Gorchymyn). Bydd hynny'n golygu y bydd y Comisiynydd wedi'i awdurdodi i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â safonau.

Y risg os na chaiff y newidiadau eu gwneud i'r ddeddfwriaeth

4.6 Oni bai bod sefydliad sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur hefyd wedi ei gynnwys yn Atodlen 6, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud safonau'n benodol gymwys iddynt. Bydd hyn yn golygu na fydd y Comisiynydd yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safonau.

4.7 Gallai hyn arwain at wireddu'r risgiau a ganlyn;

- Methu â rhoi elfen allweddol o'r Mesur ar waith. Hynny yw, cyflwyno'r drefn safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio â safonau.
- Efallai na chaiff sefydliad sy'n ymwneud â'r cyhoedd ei gynnwys yn y drefn safonau newydd.
- Bydd anghysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar sefydliadau yn yr un sectorau.
- Bydd y cyhoedd yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd yn parhau os na chaiff y Gorchymyn hwn ei wneud i ganiatáu i safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i sefydliadau sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur.
- Ni fydd sefydliadau sydd â Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r drefn safonau.

5. Ymgynghori

5.1 Nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y Gorchymyn hwn gan nad yw'r Gorchymyn yn rhoi unrhyw ddyletswyddau'n uniongyrchol ar y sefydliad. Mae Atodlen 6 i'r Mesur yn nodi'r sefydliadau a'r categorïau o sefydliadau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau.

- 5.2 Cyn i sefydliad orfod cydymffurfio â Safonau, rhaid bodloni nifer o amodau. Nodir y rhain yn adran 25 o'r Mesur. Un amod yw bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad drwy Reoliadau. At hynny, rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad yn nodi pa safonau y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw (ym mha amgylchiadau ac ardaloedd). Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r sefydliad ddechrau cydymffurfio.
- 5.3 Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ef yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon ei fod eisoes wedi ymgynghori â'r sefydliad neu fod y sefydliad wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad safonau).
- 5.4 Bydd unrhyw sefydliad yn gallu herio'r gofyniadau i gydymffurfio â safon benodol ar y sail nad yw'n rhesymol ac yn gymesur gofyn iddo wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd. Os na fyddant yn gallu datrys yr anghydfod, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.
- 5.5 Gyda dau eithriad, mae'r holl sefydliadau ym mharagraffau 1 a 2 o'r Gorchymyn wedi cymryd rhan yn Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd; y ddau eithriad yw'r Sefydliad Ffilm Prydeinig a Glandŵr Cymru sy'n sefydliadau olynol i Gyngor Ffilm y DU a Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain, yn ôl eu trefn. Enwir y ddau yn Atodlen 6. Y bwriad o'u cynnwys yn y Gorchymyn yw diweddarau Atodlen 6.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ystyrir nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016 gan nad yw'n gosod costau uniongyrchol ac mai rhan o ddiweddarau Mesur 2011 ydyw.



Ein cyf: MA-L/FM/0218/15

David Melding AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Rhagfyr 2015

Annwyl David

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei adroddiad, *Deddfu yng Nghymru*, ac mae'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r argymhellion. Mae ein hymateb llawn wedi ei atodi i'r llythyr hwn.

Yn ein hymateb, rydym yn cyfeirio at waith sy'n mynd rhagddo i adolygu'r dull cyfredol o reoli rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth i baratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad. Bwriad y gwaith hwn yw adeiladu ar nifer o newidiadau a wnaethpwyd eisoes i brosesau Llywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Fel y gwelwch o'r ymateb, mae cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng argymhellion y Pwyllgor a gwaith sydd ar y gweill fel rhan o'n hadolygiad. Mae hyn yn galonidid i ni, oherwydd mewn sawl ystyr y mae'n glir fod y Pwyllgor yn rhannu ein gweledigaeth o sut y dylai dull y Llywodraeth o ran ei rhaglen ddeddfwriaethol barhau i ddatblygu a gwella. Mae'r agweddau allweddol sy'n ganolog i hyn yn cynnwys:

- Datblygu polisi cynhwysfawr yn gynnar yn y broses ar gyfer pob cynnig deddfwriaethol,
- Pennu ac ystyried goblygiadau ariannol yn gynnar yn y broses;
- Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid drwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â rhai o'r sylwadau a wneir ar Ffiliau'r Llywodraeth yn yr adroddiad, rydym wrth gwrs yn cydnabod pwysigrwydd pob un o'r agweddau allweddol hyn ac roeddem yn hapus i ystyried sut y gallwn barhau i wella ein dull o ymdrin â hwy. Mae'n rhaid i'r gwaith o gynllunio a rheoli Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth fod mor drwyadl â phosibl ar gyfer y tymor nesaf.

I'r perwyl hwn, rydym wedi pennu yr hyn a gredwn yw rhai o'r prif ffactorau i'w hystyried o ran maint Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf Llywodraeth Cymru a'r gwaith o'i rheoli, sef – yn benodol:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Fel rheol, ni ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mwy na 5 neu 6 o Filiau bob blwyddyn. Ni ddylai'r un Bil fod wedi'i amserlennu i gael ei gyflwyno yn y flwyddyn olaf, hynny yw ar ôl 30 Ebrill 2020;
- Dylai Llywodraeth Cymru symud at ddatganiad deddfwriaethol blynyddol a chael cylch cynllunio treigl ar gyfer ei Rhaglen Ddeddfwriaethol;
- Bydd cynigion deddfwriaethol yn parhau i gael eu blaenoriaethu yng nghyd-destun y Rhaglen Ddeddfwriaethol gyfan – gan fod yn ystyriol o sut y gall y Rhaglen Ddeddfwriaethol gyffredinol effeithio ar ein partneriaid cyflenwi a'r sector preifat;
- Dylid mireinio a chryfhau y dull mewnol o asesu Biliau cyn cael cytundeb Gweinidogol ffurfiol i'w cyflwyno, lle bo hynny'n bosibl.

Allan o'r 19 argymhelliad yn yr adroddiad hwn sydd yn gyfan gwbl neu yn rhannol ar gyfer Llywodraeth Cymru, rydym wedi gallu derbyn 17 ohonynt yn eu cyfanrwydd, mewn egwyddor neu yn rhannol.

Dylwn nodi nad yw ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi sylwadau helaeth ar hyn o bryd ar argymhellion unigol sy'n ymwneud â sefydliadau eraill, yn arbennig y rhai ar gyfer Pwyllgor Busnes y Cynulliad. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio y gallai'r argymhellion hyn gael effaith gynyddol sylweddol ar hyd y broses ddeddfwriaethol, ar amser Aelodau'r Cynulliad ac amser Cyfarfod Llawn y Llywodraeth. Gallai hefyd effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Byddem, felly, yn dymuno ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog yn eu cyfanrwydd.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad defnyddiol hwn. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod cyfraniadau sylweddol y Pwyllgor at y broses o graffu ar y ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan y Cynulliad y tymor hwn. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i waith Gweinidogion, Aelodau a swyddogion (y Llywodraeth a Chomisiwn y Cynulliad) wrth ymdrin â deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Cynulliad hwn.

Yn gywir



CARWYN JONES

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol sy'n dwyn y teitl Deddfu yng Nghymru

3 Rhagfyr 2015

Ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- (i) yn cynnal adolygiad trylwyr o'i phroses datblygu a'r broses fewnol o gydgyssylltu'r rhaglen ddeddfwriaethol, ac yn eu hailwampio;
- (ii) yn sicrhau bod systemau cynllunio strategol effeithiol, monitro, cyflawni a rheoli ansawdd yn eu lle i sicrhau bod Biliau cyflawn sydd wedi'u hystyried yn drwyadl yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad graffu arnynt;
- (iii) yn cyhoeddi'r fframwaith llywodraethu diwygiedig ar gyfer ei rhaglen ddeddfwriaethol gan gynnwys y llinellau atebolrwydd a'r prosesau penderfynu ar gyfer paratoi ei Biliau a'u cymeradwyo.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru wrthi eisoes yn adolygu ei dull o reoli rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, yn barod erbyn y Pumed Cynulliad. Gwneir y gwaith hwn yn rhannol er mwyn gwerthuso nifer o newidiadau a wnaethpwyd eisoes i brosesau Llywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Er nad ydym yn credu bod angen ailwampio'r prosesau'n llwyr, rydym eisiau sicrhau bod y gwaith o gynllunio a rheoli y rhaglen ddeddfwriaethol mor drwyadl ag sy'n bosibl. Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch rheoli rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn y Pumed Cynulliad a chyhoeddi gwybodaeth yn ei chylch. Wedi iddynt gael eu cwblhau, bydd y newidiadau i'r broses yn cael eu hadlewyrchu yn Llawlyfr Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r Cynulliad, a fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd prosesau Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu monitro gan Fwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol a bydd unrhyw newidiadau a wneir yn cael eu hadlewyrchu yn y Llawlyfr cyhoeddedig.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o fewn y cyllidebau cyfredol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- (i) fabwysiadu meini prawf datblygu polisi cadarnach yn seiliedig ar y rhai a amlygwyd gan Gomisiwn y Gyfraith;
- (ii) ymrwymo i ddarparu cyfnodau ymgynghori priodol a chynharach i sicrhau bod cyfnod digonol yn cael ei ganiatáu i adlewyrchu cymhlethdod a chwmpas pob darn o ddeddfwriaeth arfaethedig a'r angen am ymgynghoreion cynrychiadol i geisio barn rhanddeiliaid;
- (iii) ymrwymo i esbonio'n eglur i randdeiliaid sut mae eu hadborth wedi dylanwadu ar ei chynigion deddfwriaethol, gan gynnwys y rhesymau pam mae

eu barn yn cael ei hadlewyrchu yn y cynigion deddfwriaethol neu ddim yn cael ei hadlewyrchu ynddynt;

(iv) ymgorffori pwyntiau (i) i (iii) uchod i ganllawiau mewnol ar gyfer eu defnyddio ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru fel arf hanfodol i ddatblygu cynigion deddfwriaethol

Ymateb: Derbynn yn rhannol

Mae dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi eisoes yn gyson â'r egwyddorion a bennir gan Gomisiwn y Gyfraith. Mewn ffordd debyg, fel rhan o'n dull o ddatblygu polisi rydym yn ystyried a yw deddfwriaeth yn angenrheidiol ac, os felly, pa fath o ddeddfwriaeth y dylai fod. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar ddeddfwriaeth ar wahanol gamau, sef Papur Gwyrdd, Papur Gwyn neu Fil Drafft. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddwn yn egluro sut yr ydym wedi rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau a fynegwyd cyn cyflwyno'r Bil neu wrth ei gyflwyno.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut y gall ymgynghori mor effeithiol â phosibl ar bob cynnig deddfwriaethol.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes goblygiadau ariannol newydd yn codi o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cael rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft. Mae'r argymhelliad hwn yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac i Aelodau Cynulliad sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Biliau.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod ymgynghori'n digwydd ar adeg sy'n caniatáu deialog effeithiol ac ystyrllon gyda rhanddeiliaid. Gall ymgynghori ar Fil drafft fod yn ffordd effeithiol o drafod gyda rhanddeiliaid Fodd bynnag, ceir ffyrdd effeithiol eraill o ymgynghori a allai fod yn fwy priodol, yn dibynnu ar y cynigion deddfwriaethol penodol dan sylw.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Busnes baratoi cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 26.6 i'w gwneud yn ofynnol i Femoranda Esboniadol:

- (i) ddatgan a gafodd Bil ei gyhoeddi fel drafft llawn neu ddrafft rhannol, ac os mai rhannau ohono sy'n ddrafft, pa rannau yw'r rheini;
- (ii) crynodeb manwl o sut y mae Bil a gyflwynwyd wedi ei ddiwygio ers y Bil drafft, a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau a fabwysiadwyd;
- (iii) y rhesymau, os yn berthnasol, am beidio â chyhoeddi Bil ar ffurf drafft.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod memorandwm ariannol yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r holl Filiau drafft, sy'n cynnwys gwybodaeth am gostau'r polisi dan sylw, y sefyllfa ddeddfwriaethol a'r costau ar ôl gwneud y ddeddfwriaeth. Mae'r argymhelliad hwn yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac i Aelodau Cynulliad sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Biliau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall fod yn fanteisiol cyhoeddi asesiad cychwynnol o'r buddion a'r effeithiau tebygol (ariannol ac ehangach) ochr yn ochr â Biliau drafft. Bydd y strwythur a'r cynnwys priodol ar gyfer yr asesiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- (i) yn adolygu ei hagwedd at y cydbwysedd rhwng yr hyn a gaiff ei gynnwys ar wyneb Bil a'r hyn a roddir mewn is-ddeddfwriaeth;
- (ii) yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad hwnnw, gan gynnwys yr egwyddorion y bydd yn eu defnyddio wrth ddrafftio Biliau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y ceir y cydbwysedd priodol.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Byddwn yn adolygu'r ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn sgil canfyddiadau'r Pwyllgor. Bydd hynny'n cynnwys ystyried a fyddai datblygu set o egwyddorion yn briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad hwnnw.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir yr adolygiad o fewn y cyllidebau cyfredol. Wedi i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau, bydd angen i ymateb Llywodraeth Cymru iddo ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y technegau sydd ar gael ar gyfer gwneud dirprwyo pwerau yn fwy derbyniol, gan gynnwys rhoi pwrpas pwerau dirprwyedig a'r cyfyngiadau arnynt ar wyneb Bil.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried rhoi pwrpas pwerau dirprwyedig a'r cyfyngiadau arnynt mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu ein dull o wneud hyn fel rhan o'r adolygiad y gwnaethom ymrwymo iddo yn ein hymateb i Argymhelliad 6.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir yr adolygiad o fewn y cyllidebau cyfredol. Wedi i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau, bydd angen i ymateb Llywodraeth Cymru iddo ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai pwerau i wneud darpariaeth atodol neu ganlyniadol gael eu cynnwys fel mater o drefn mewn Biliau, ac y dylid eu cadw ar gyfer achosion lle mae rhesymau arbennig pam y mae angen i Lywodraeth Cymru ymdrin â materion bach neu ganlyniadol drwy ddeddfwriaeth ddirprwyedig. Dylid nodi rhesymau o'r fath yn glir yn y Memorandwm Esboniadol.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull fel rhan o'r adolygiad y gwnaethom ymrwymo iddo yn ein hymateb i argymhelliad 6. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r rhesymau dros gynnwys darpariaethau o'r fath mewn unrhyw Fil gael eu pennu'n glir yn y Memorandwm Esboniadol.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir yr adolygiad o fewn y cyllidebau cyfredol. Wedi i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau, bydd angen i ymateb Llywodraeth Cymru iddo ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wella ansawdd y deddfwriaeth a gyflwynir ganddi drwy:

- (i) fabwysiadu'r egwyddorion a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ac a amlygwyd ym mharagraff 113 o'r adroddiad hwn;
- (ii) cynnwys Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol mor gynnar yn y broses o ddatblygu polisi ag sy'n ymarferol ym mhob achos.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

O ran y tri awgrym cyntaf i wella ansawdd deddfwriaeth a amlinellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y canlynol: “*ensuring that instructions to counsel are comprehensive and clear and reflect fully thought out and agreed policy*”; “*having departments work closely with drafters to ensure that Bills are clear, concise, consistent, unambiguous, and easily intelligible, keeping technical terminology to a minimum*”, a “*minimising the need for government to table its own amendments to a Bill after it has entered the legislative process*”, yn ogystal ag argymhelliad y Pwyllgor i gynnwys “Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol mor gynnar yn y broses o ddatblygu polisi ag sy'n ymarferol”. Fel rhan o'r gwaith o adolygu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ac yn rheoli ei rhaglen deddfwriaethol, fel yr amlinellwyd yn Argymhelliad 1, ein bwriad yw sicrhau bod ein prosesau mewnol yn cefnogi'r awgrymiadau hyn cyn belled â phosibl.

O ran yr awgrymiadau canlynol gan Gomisiwn y Gyfraith: “*making greater use of Keeling Schedules (as part of the Explanatory Notes) to clarify changes that a bill makes to previous enactments*” a “*providing for the clear repeal of any existing enactments that are superseded by the bill*”, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y rhain ymhellach yn sgil adroddiad terfynol Comisiwn y

Gyfraith ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai'r unig adeg y mae atodlenni Keeling o fudd yw pan wneir diwygiadau sylweddol a helaeth i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn osgoi gwneud hynny lle bo'n ymarferol.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir y gwaith o adolygu'r ffordd y caiff rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei chynllunio a'i rheoli o fewn y cyllidebau cyfredol.

Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn sgil adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ein hymateb i'r adroddiad hwnnw..

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno Biliau y gellir eu hystyried yn rhesymol yn rhai a ddatblygwyd yn llawn.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Biliau, adeg eu cyflwyno, fod yn rhai a ddatblygwyd yn llawn. Dylai'r gwaith yr ydym yn ei wneud i adolygu'r ffordd y mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei chynllunio a'i rheoli, y cyfeiriwyd ato yn ein hymateb i Argymhelliad 1, fod yn gymorth i gryfhau'r system sy'n cefnogi datblygiad Biliau fel ei bod yn fwy trwyadl. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn rhai o'r sylwadau ar Filiau Llywodraeth y Pedwerydd Cynulliad yn y cyswllt hwn. Mae llawer o resymau pam mae Biliau'n newid yn ystod y broses graffu, ac mae hyn yn rhan bwysig o'r broses ddemocrataidd.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir y gwaith o adolygu'r ffordd y caiff rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei chynllunio a'i rheoli o fewn y cyllidebau cyfredol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Gyfraith, yn datblygu cynllun hirdymor ar gyfer cydgrynhoi deddfau Cymru.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn ar y cyd â'r adroddiad terfynol gan Gomisiwn y Gyfraith ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru – gan roi ystyriaeth hefyd i'r goblygiadau o ran adnoddau.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn ein hymateb i'r adroddiad hwnnw.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn ymrwymo i baratoi Rheol Sefydlog ar Filiau cydgrynhoi, a hynny'n ddelfrydol erbyn y Pumed Cynulliad. Dylai'r Rheol Sefydlog anelu at ddarparu llwybr carlam ar gyfer Biliau y mae'r Cwnsler Deddfwriaethol yn penderfynu nad ydynt yn cynnwys unrhyw newid sylweddol yn y gyfraith.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor. Gobeithiwn, fodd bynnag, y bydd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru yn cael ei ystyried wrth lunio Rheolau Sefydlog newydd..

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu gweithdrefn symlach ar gyfer Biliau sy'n diwygio'r gyfraith ac yn gweithredu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Gyfraith yn rhoi sylw i safbwyntiau'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at ein hymchwiliad fel rhan o'u prosiect ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae hwn yn argymhelliad i Gomisiwn y Gyfraith ei ystyried.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar gynhyrchu cronfa ddata derminoleg safonol, gan weithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae gan Lywodraeth Cymru gronfa derminoleg safonol (sef TermCymru) eisoes. Mae ar gael yn ddi-dâl i bawb ar-lein. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o TermCymru ac mae wrthi'n trafod cydgysylltu'r gwaith o reoli terminoleg yng Nghymru gyda Llywodraeth Cymru a chyllidwyr a rhanddeiliaid strategol eraill.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes goblygiadau ariannol newydd.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg:

- (i) yn sefydlu cynllun tymor hir ar gyfer cynyddu'r gyfran o Filiau sy'n cael eu drafftio ar y cyd yn Saesneg ac yn Gymraeg;
- (ii) yn pennu meini prawf ar gyfer blaenoriaethu adnoddau ar gyfer drafftio mewn dwy iaith er mwyn sicrhau dyraniad i'r Biliau sydd fwyaf tebygol o elwa ar hynny.

Ymateb: Gwrthod

Er bod manteision i ddrafftio ar y cyd mewn rhai achosion, nid yw o reidrwydd yn fodel priodol ac effeithlon ar gyfer paratoi'r mwyafrif o Filiau. Gellir datblygu deddfwriaeth ddwyieithog o ansawdd uchel mewn sawl ffordd, a gellir defnyddio gwahanol ffyrdd mewn gwahanol amgylchiadau. Ni waeth beth fo'r prosesau mewnol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i sicrhau bod Biliau'r Llywodraeth yn cael eu cyflwyno mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg o ansawdd uchel.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes goblygiadau ariannol newydd.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cwnsler Cyffredinol yn gweithio tuag at lunio Deddf Dehongli ar wahân i Gymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y datblygiadau yn hyn o beth.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn ar y cyd â'r adroddiad terfynol gan Gomisiwn y Gyfraith ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru. Byddai hefyd angen ymgynghori ymhellach yn y ffordd arferol pe bai Bil yn cael ei gynneg.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn ein hymateb i'r adroddiad hwnnw.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o ran Memoranda Esboniadol a chyhoeddi canlyniad yr adolygiad hwnnw yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Byddai adolygiad ffurfiol o'r dull o ran Memoranda Esboniadol yn rhy gynnar ar hyn o bryd o ystyried yr argymhellion mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Busnes ystyried diwygio Rheolau Sefydlog ynglŷn â dogfennaeth gysylltiedig. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir gwella ei dull o ran Memoranda Esboniadol cyn tymor nesaf y Cynulliad. Fel y cyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru, rydym wedi cychwyn ar y gwaith o ystyried beth yw'r ffordd orau o wella ein dull o ran Memoranda Esboniadol.

Goblygiadau Ariannol – Bydd yr ystyriaeth hon yn ffurfio rhan o waith sydd eisoes ar y gweill i adolygu'r ffordd y mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei chynllunio a'i rheoli. Felly, bydd yn mynd rhagddo o fewn y cyllidebau cyfredol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu gofynion Rheol Sefydlog 26.6 erbyn y Pumed Cynulliad, a'i fod yn ystyried y canlynol yn benodol:

- (i) cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn dangos yn glir ble yn y Memorandwm Esboniadol y ceir hyd i ofynion y Rheol Sefydlog (er enghraifft, trwy gyfrwng mynegai priodol);
- (ii) yr awgrymiadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn â sut y gellid gwella Rheol Sefydlog 26.6(vi) i ddarparu gwybodaeth ariannol cliriach;
- (iii) cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn esbonio sut y mae wedi ystyried y confensiwn hawliau dynol wrth baratoi'r Bil;
- (iv) cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn darparu tabl tarddiadau.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn paratoi cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol bod Atodlenni Keeling ar gael i gyd-fynd â Bil pan gaiff ei gyflwyno (os yw'n cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol).

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes, ar ôl cyfnod priodol o amser yn ystod y Pumed Cynulliad, yn adolygu'r angen am gynnwys lleiafswm amser yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer craffu ar Filiau yng Nghyfnod 1.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 22

O ystyried bod y Cynulliad yn ddeddfwrfa un siambr, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn paratoi cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad i ddarparu Cyfnod Adrodd gorfodol ar gyfer craffu ar bob Bil, oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad o fwyafrif o ddwy ran o dair, yn penderfynu fel arall.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ymarferol fyddai rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cynnig secondiad i aelodau o staff Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol i Gomisiwn y Cynulliad.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried hyn fel posibilrwydd, ond bydd rhaid ystyried a oes adnoddau ar gael yn Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol i allu gwneud hyn.

Goblygiadau Ariannol – Gallai nifer o argymhellion y Pwyllgor, pe bai'r Cynulliad yn eu derbyn, gael goblygiadau sylweddol o ran adnoddau Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol. Byddai angen ystyried y goblygiadau hyn o ran adnoddau gyda'i gilydd. Pe bai unrhyw aelodau o staff yn mynd ar secondiad, byddai Comisiwn y Cynulliad yn ysgwyddo'r costau. Fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at leihad yng nghyfanswm yr adnoddau staff sydd ar gael yn Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Busnes i gymorthwyo'r drafodaeth ynghylch diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol bod yr holl welliannau a gyflwynir i Fil (gan gynnwys gwelliannau Llywodraeth Cymru) yn cynnwys testun sy'n egluro eu pwrpas a'u heffaith.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch pwrpas gwelliannau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael yn nhymer presennol y Cynulliad a'r tymor blaenorol.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad sicrhau ei fod yn cyhoeddi crynodebau o gyfnodau diwygio pob Bil o fewn cyfnod priodol ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod hwnnw.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae hwn yn argymhelliad i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu pa mor ddigonol yw'r weithdrefn sy'n caniatáu osgoi proses graffu Cyfnod 1 a'r weithdrefn sy'n caniatáu'r defnydd o Filiau Brys Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, dylai ystyried:

(i) ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r rhesymau dros ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26.9 i ganiatáu Bil i osgoi'r broses graffu Cyfnod 1 mewn pwyllgor, cyn pen 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw;

(ii) ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol, wrth gyflwyno cynnig yn argymhell bod Bil Llywodraeth yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth o dan Reol Sefydlog 26.95, gyflwyno datganiad yn esbonio pam y dylid ei drin felly, a'r costau a'r canlyniadau eraill o beidio â gwneud hynny.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 27

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgorau yn anelu at:

- (i) ymgorffori trafodaeth am waith craffu ar ôl deddfu wrth gynllunio'r gwaith craffu cyffredinol ar Filiau unigol a gyfeirir atynt gan y Pwyllgor Busnes;
- (ii) ail-edrych ar eu dull arfaethedig o weithredu ar ôl i Gyfnod 4 gael ei orffen, gan ystyried materion a gododd yn ystod y broses graffu.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae hwn yn argymhelliad i Bwyllgorau'r Cynulliad ei ystyried.

Argymhelliad 28

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn adolygu eu dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd am y broses ddeddfwriaethol, ac yn cyhoeddi canlyniad eu hadolygiadau erbyn y Pumed Cynulliad.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon cydweithio â Chomisiwn y Cynulliad i ystyried beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch y broses ddeddfwriaethol.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith o ystyried hyn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau cyfredol.

Argymhelliad 29

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Archifau Gwladol a Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd testunau deddfwriaethol Cymru. Fel rhan o'r broses hon, dylai Comisiwn y Cynulliad gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio â'r Archifau Gwladol i wella hygyrchedd testunau deddfwriaethol Cymru. Y weithrediaeth (sef yr Archifau Gwladol yn yr achos hwn), yn hytrach na'r ddeddfwrfa, sy'n gyfrifol am y cyhoeddi a'r hygyrchedd wedi i Fil gael ei basio.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o fewn y cyllidebau cyfredol.

Argymhelliad 30

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu'r broses ar gyfer Biliau Aelodau gan ystyried y dystiolaeth a gawsom gan Aelodau'r Cynulliad a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella'r broses.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 31

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes, wrth drafod y strwythur pwyllgorau sydd i'w fabwysiadu yn y Pumed Cynulliad, yn:

- (i) ystyried amryw opsiynau gan nodi manteision ac anfanteision pob un;
- (ii) rhoi ystyriaeth i brofiadau ymarferol pwyllgorau'r Cynulliad;
- (iii) cyhoeddi adroddiad am ei drafodaethau gan gynnwys ei argymhelliad terfynol.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Busnes a bydd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor.

Argymhelliad 32

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn buddsoddi adnoddau i gasglu data sy'n berthnasol i weithrediad a swyddogaeth y broses graffu yn y Cynulliad fel ffordd o hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o amser ac adnoddau wrth ddarparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad.

Ymateb: Wedi'i nodi

Mae hwn yn argymhelliad i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried.

Argymhelliad 33

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r cwmni sy'n darparu'r feddalwedd ddeddfwriaeth a Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau ei bod yn canfod ateb i'r problemau a nodwyd.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gesio canfod ateb i'r problemau a geir ar hyn o bryd gyda'r feddalwedd ddeddfwriaeth.

Goblygiadau Ariannol – Nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd, gan y byddant yn dibynnu ar yr ateb a bennir.

Argymhelliad 34

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'n llawn pa mor ymarferol a dichonol fyddai sefydlu Argraffydd y Frenhines ar gyfer Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried eisoes a bydd yn cael ei archwilio yn fwy trwyadl.

Goblygiadau Ariannol – Cynhelir trafodaethau o fewn cyllidebau cyfredol. Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried pan wneir unrhyw benderfyniad.

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru



Wales Office
Swyddfa Cymru

Rt Hon Stephen Crabb MP
Secretary of State for Wales

Gwydyr House Tŷ Gwydyr
London, SW1A Llundain, SW1A 2NP
2NP

1 Caspian Point 1 Pwynt Caspian
Cardiff Bay, CF10 Bae Caerdydd, CF10
4DQ 4DQ

www.walesoffice.gov.uk

David Rees AM
Chair, Health and Social Care
Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ref: 134SOS 15

01 December 2015

Dear Mr Rees

Thank you for providing me with a copy of your evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee following Health and Social Care Committee's scrutiny of the draft Wales Bill.

The draft Wales Bill published for pre-legislative scrutiny is a significant step for Wales and one which provides a firm basis for a stronger, lasting Welsh devolution settlement. Of course I am open to ideas on how the Bill can be improved and I look forward to seeing the recommendations made by the Welsh Affairs Committee in addition to those expressed by Committees of the Assembly. I am grateful therefore for your Committee's consideration of the draft Bill, and the new reserved powers model, in respect of the Assembly's powers over health and social care.

A full impact assessment to accompany the Wales Bill will be published alongside its introduction in the New Year.

Rt Hon Stephen Crabb MP
Secretary of State for Wales



Wales Office
Swyddfa Cymru

Rt Hon Stephen Crabb MP
Secretary of State for Wales

Gwydyr House Tŷ Gwydyr
London, SW1A Llundain, SW1A 2NP
2NP

1 Caspian Point 1 Pwynt Caspian
Cardiff Bay, CF10 Bae Caerdydd, CF10
4DQ 4DQ

www.walesoffice.gov.uk

William Graham AM
Chair, Enterprise and Business
Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ref: 138SOS 15

07 December 2015

Dear William,

Thank you your letter of 16 November and for the Enterprise and Business Committee's consideration of the draft Wales Bill.

The draft Wales Bill, published in October for pre-legislative scrutiny, is a significant step for Wales and one which provides a firm basis for a stronger, lasting Welsh devolution settlement.

I am grateful for your Committee's consideration of the draft Bill, and the new reserved powers model, in respect of the Assembly's powers within your remit. The UK and Welsh Governments are holding frequent discussions on the draft Bill, including the proposed Schedule of reservations. Many of the issues your Committee has raised have also been raised by the Welsh Government in those discussions.

I am open to ideas on how the draft Bill can be modified and improved, and I will consider carefully the recommendations made by the Welsh Affairs Select Committee and the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee with this in mind. The issues you raise in Annex A to your letter will be considered in detail as part of this process.

Rt Hon Stephen Crabb MP
Secretary of State for Wales

THE DRAFT WALES BILL

Further Submission to the Welsh Affairs Select Committee of Parliament

by

Huw Williams¹

INTRODUCTION

1. This paper is supplementary to my previous submission to the Committee. This paper focuses exclusively on the proposed reservation of the compulsory purchase of land and covers in somewhat greater detail the section on CPO in my previous submission. This submission also draws attention to the anomalies surrounding the role of the “appropriate Minister” in relation to compulsory purchases affecting statutory undertakers.

Reservation of the Compulsory Purchase of Land

2. Compulsory purchase of land² is wholly reserved under the Draft Bill. This is a rolling back of the current position where compulsory purchase is a “silent subject” and could be legislated upon under section 108 (5) (b) of the Government of Wales Act 2006, if incidental or consequential to a conferred subject³. The proposed reservation, if implemented, will cause unnecessary difficulties across a range of devolved activities which are underpinned by powers of compulsory acquisition of land (or their availability in the background).
3. While CPO was a “silent subject” it appears to have been assumed that the National Assembly certainly has a degree legislative competence when it comes to powers of compulsory purchase. The Welsh Ministers also exercise executive powers to make secondary legislation relating to compulsory purchase, where the Welsh Ministers themselves have CPO

¹ Lead Partner – Public Law and Vice-chairman of Geldards LLP, a member of the Planning and Environment Law Committee of the Law Society of England and Wales, Chair of Public Law Wales (Wales Public Law and Human Rights Association) and a member of the Welsh Government’s Independent Advisory Group on Planning 2012-13.

² New Schedule 7A, section M4 Buildings and development, paragraph 200

³ For example Schedule 7, Subject 10 (Highways) or Subject 18 (Town and Country Planning).

C:4636334v1

powers or are the confirming authority for CPO's made by other devolved bodies and Welsh local authorities⁴.

4. In addition to highways⁵ and planning⁶, there are CPO powers which can be utilised for NHS bodies⁷, for education purposes⁸, housing⁹, for general local government purposes¹⁰ and for economic, social and environmental development¹¹. Other, less frequently used, CPO powers cover aerodromes, allotments, caravan sites, cemeteries, animal diseases, fire services, civil defence, markets, parks and recreation grounds, open spaces and slaughterhouses.
5. To fully understand the effect of this reservation, it is necessary to appreciate that the law on compulsory purchase ("CPO") (which is an entirely statutory code) falls into three distinct categories:
 - 5.1 Provisions that confer powers of CPO.
 - 5.2 Legislation that sets out the procedure for making a CPO, making and determining objections, dealing with special categories of land (e.g. open space land) and statutory challenges to the lawfulness of a CPO¹².
